CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007/702 (W.59)

**Gorchymyn Baeddu Tir gan Gŵn (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy , drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**1**
Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **1af Chwefror 2012**

**2**
Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i'r tir a bennir yn Yr Atodlen.

**Y Drosedd**

**3**
(1) Os bydd ci yn ysgarthu ar unrhyw adeg ar dir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo a bod unigolyn sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd yn methu â symud y baw ci oddi ar y tir ar unwaith, bydd yr unigolyn hwnnw yn euog o drosedd oni bai-

(a) bod gan yr unigolyn hwnnw esgus rhesymol dros fethu â gwneud hynny; neu

(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu unigolyn neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r unigolyn hwnnw fethu â gwneud hynny.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn berthnasol i unigolyn-

(a) sydd wedi'i gofrestru fel unigolyn dall mewn cofrestr a luniwyd o dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei law deheurwydd, ei gydsymud corfforol neu ei allu i godi, i gario, neu i symud gwrthrychau bob dydd mewn modd arall, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen ragnodedig ac y mae'r unigolyn hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon -

(a) cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol yn ei feddiant yn gyfrifol am y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai fod rhyw unigolyn arall yn gyfrifol am y ci hwnnw ar yr adeg honno;

(b) bydd gosod y baw ci mewn cynhwysydd a ddarperir ar y tir at y diben hwnnw, neu ar gyfer gwaredu gwastraff, yn ddigonol i gael gwared ohono oddi ar y tir;

(c) ni fydd bod yn anymwybodol o'r ysgarthu (naill ai gan nad oeddech yn y cyffiniau neu fel arall), neu nad oes gennych declyn i gael gwared ar y baw ci neu ddull arall addas o wneud hynny yn esgus rhesymol dros fethu â chael gwared ar y baw ci;

(ch) mae pob un o'r canlynol yn "elusennau a ragnodwyd"-

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680).

**Y Gosb**

**4**
Bydd unigolyn sy'n euog o drosedd dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol

**RHODDWYD** dan fy llofnod

Cynghorydd Philip C. Evans
Deiliad Portffolio
Aelod Cabinet Llywodraethu a Rheoleiddio

**ATODLEN**

Tir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo:

1. Mae'r holl dir sydd wedi'i ddisgrifio yn yr atodlen hon yn dir sydd o fewn ardal weinyddol y Cyngor

(i) sy'n dir agored i'r awyr (sy'n cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr) ac

(ii) Tir y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad)